# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Ionawr 2020

Amser: 10.46 - 12.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5975

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AC<br>Lynne Neagle AC<br>David Rees AC<br>Rhun ap Iorwerth AC |
| Tystion: | Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Matt Downton, Llywodraeth Cymru<br>Alistair Davey, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 O dan Reol Sefydlog 17.47(vi), gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod tan 10.30 gan nad oedd y cynrychiolydd o Gymdeithas y Swyddogion Carchar yn bresennol.

1.2 Ailgynullodd y Pwyllgor am 10.30. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.3 Nododd y Cadeirydd fod Helen Mary Jones AC bellach wedi gadael y Pwyllgor. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor, a chroesawodd Rhun ap Iorwerth AC fel aelod newydd o'r Pwyllgor.

## 2 Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion: Sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas y Swyddogion Carchar

2.1 Ni chynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth gan nad oedd y cynrychiolydd o Gymdeithas y Swyddogion Carchar yn bresennol.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 4 ac eitem 5 o’r cyfarfod heddiw.

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion: Trafod y dystiolaeth

4.1 Ni chynhaliwyd yr eitem gan nad oedd y cynrychiolydd o Gymdeithas y Swyddogion Carchar yn bresennol.

## 5 Ymchwiliad i’r prosesau ar gyfer rhyddhau cleifion o’r ysbyty: Cwmpas a dull gweithredu

5.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cwmpas a'r dull arfaethedig ar gyfer yr ymchwiliad i brosesau rhyddhau o'r ysbyty, a chytunodd arno.

## 6 Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion: Sesiwn Dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

6.2 Cytunodd swyddogion Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Ffigurau gwariant gan Fyrddau Iechyd ar ofal iechyd i'r carchardai.
- Gwybodaeth ychwanegol ynghylch grŵp goruchwylio iechyd a gofal cymdeithasol carchardai.
- Diweddariad ar y safonau drafft ar gyfer iechyd meddwl mewn carchardai.
- Copi o Strategaeth HMPSS ar gyfer ymdrin â phobl hŷn yn y ddalfa yn rhanbarth Cymru.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 3 Hydref 2019

7.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 7.2 Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

7.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 9 Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion: Trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth y Gweinidog a'r themâu allweddol sy'n codi yn sgîl yr ymchwiliad, ar gyfer eu cynnwys yn ei adroddiad.

## 10 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod yr adroddiad drafft

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft gan dderbyn casgliadau ac argymhellion yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau a oedd i'w cytuno drwy e-bost.